

# MENYWOD Y CYMOEDD

Mae Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dathlu menywod y Cymoedd er mwyn nodi canmlwyddiant Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918.

Sut oedd bywyd i fenywod? Beth fyddai'n sbarduno Mam i listio yn y rhengoedd?

Beth gymhellai fenywod i ymladd dros ffeministiaeth?

# WOMEN OF THE VALLEYS

To mark the Centenary of the Representation of the Peoples Act 1918, RCTCBC Heritage Service is celebrating the women of the Valleys.

What was life like for women?

What caused the mam to mobilise and compelled women to fight for feminism?

WOMEN  
OF  
THE  
VALLEYS

“

...OS MAI ADDASU'R PLENTYN  
GOGYFER Â'R BYD OEDD GWAITH  
Y FENYW, EI GWAITH HI HEFYD  
OEDD ADDASU'R BYD GOGYFER  
Â'R PLENTYN

”

“

...IF IT WAS WOMAN'S PLACE TO  
FIT THE CHILD FOR THE WORLD,  
IT WAS ALSO HER PLACE TO FIT  
THE WORLD FOR THE CHILD

”

Elizabeth Andrews



# GWRAIG Y GLÖWR

[1900 - 1913]

## THE COAL MINER'S WIFE

Mam, eicon menywod Cymru. Menyw fach deidi yw hi, yn gweithio'n galed i fagu'r plant ar aelwyd lân ac i fod yn gefn i'w gŵr. Glöwr yw hwnnw, wrth gwsr.

Roedd diwydiannau newydd Cymru wedi peri i'r boblogaeth gynyddu ar garlam. Byddai digon o ddarpar wŷr ar gael i fenywod - ond y swyddi yn brin. Câi rhai menywod sengl waith fel athrawesau, neu yn gweini mewn tai pobl, ond gwgu wnâi'r gymdeithas ar fenywod yn gweithio am gyflog. Gwasanaethu'r gweithiwr oedd gwaith y fenyw, a chreu'r genhedlaeth nesaf o lowyr.

The Mam, an icon of Welsh womanhood. She is small, neat, devout, a hardworking wife and mother and moral custodian of the home. Her husband is a coal miner.

A new industrialised Wales and rapid population growth meant good marriage prospects for women but few job opportunities. Some single women worked as teachers and in domestic service but society frowned on married women working. A women's job was to service the needs of the working man and reproduce the next generation of miners.

1883

Sefydlu Urdd Gydwethredol y Menywod.

1890au

Aelodaeth Undeb Cymdeithasau Rhyddfrydol Menywod Cymru yn cyrraedd 9,000.

1897

Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Rhyddfreinio Menywod, ym Mhontypridd a'r Rhondda yn llobio mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

1901

Sefydlu Undeb Dirwestol Merched y De.

1903

Ffurio Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched.

1907

Deddf Cymhwyster Merched (Cynghorau Sir a Bwrdeistref) 1907 yn rhoi hawl i weddwon ac i ferched dibriad sefyll mewn etholiadau lleol.

1883

1883

Women's Co-operative Guild founded.

1890

1890s

Welsh Union of Women's Liberal Associations reached 9000 members.

1897

1897

National Union of Women's Suffrage Societies in Pontypridd & Rhondda Fach lobbied MPs at public meetings.

1901

1901

South Wales Women's Temperance Union established.

1903

1903

Women's Social and Political Union formed.

1907

1907

Qualification of Women's Act, gave widows and unmarried women the right to stand in local government.

ROEDD LLAFUR DIDIWEDD GENI PLANT A GWAITH TŶ YN GYMAINT O BERYGL I FYWYDAU AC IECHYD MENYWOD Y RHONDDA AG YR OEDD DAMWEINIAU A CHALEDI'R PWLL GLO I FYWYDAU AC IECHYD DYNION Y RHONDDA.

Dot Jones, yn *Our Mothers Land*, 1991

THE UNREMITTING TOIL OF CHILDBIRTH & DOMESTIC LABOUR KILLED AND DEBILITATED RHONDDA WOMEN AS MUCH AS ACCIDENT & CONDITIONS IN MINING INDUSTRY KILLED AND MAIMED RHONDDA MEN.

Dot Jones, in *Our Mothers Land*, 1991



**Disgrifiad Margaret Llewellyn Davies, Ysgrifennydd Urdd Gydweithredol y Menywod, o fywydau'r menywod yn ei chyfrol *Maternity Letters from Working Class Women (1915)*:**

'Gorweithio, salwch a dioddefaint parhaol'. Yn ôl cofnodion Dosbarth Cofrestru Pontypridd (oedd yn cynnwys y Rhondda) ar gyfer cyfnod 1901-1910, roedd cyfraddau marwolaethau 20-24 oed yn sylweddol uwch i fenywod nag i ddynion.

**Margaret Llewellyn Davies, Secretary of the Women's Co-operative Guild in *Maternity Letters from Working Class Women (1915)*:**

Characterised the lives of women as 'perpetual over-work, illness and suffering'. The Pontypridd Registration District (which included the Rhondda) recorded in the period of 1901-1910 that mortality rates were significantly higher for women aged 20-24 than men.

1909	<p><b>1909</b> Alfred Thomas (1840-1927) (Barwn Pontypridd yn ddiweddarach) yn cyflwyno deiseb gan Bobl Pontypridd o blaid rhyddfrefinio menywod.</p>	1910	<p><b>1910</b> Miss Gwenllian E. F. Morgan yn fenyw gyntaf i'w hethol yn Faer yng Nghymru.</p>	1912	<p><b>1912</b> Sefydlu Cangen Aberdâr Cynghrair Rhyddid y Merched.</p>	1914	<p><b>1914</b> Sefydlu Urddau Cydweithredol y Menywod Aberdâr a'r Rhondda.</p>
<p><b>1909</b> Lord Pontypridd, MP for East Glamorganshire, submitted a petition in favour of women's suffrage from the People of Pontypridd.</p>	<p><b>1910</b> Miss Gwenllian E.F. Morgan 1st Women Mayor in Wales.</p>	<p><b>1912</b> Women's Freedom League Aberdare branch founded.</p>	<p><b>1914</b> Aberdare &amp; Rhondda Women's Co-operative Guilds founded.</p>				



Bu dwy o gynrychiolwraigedd Cynghrair Llafur y Merched yn annerch cyfarfodydd yn y Rhondda am ryddfrefinio menywod ym 1912. Aelodau o'r Pleidiau Rhyddfrydol a Llafur oedd mwyafrif y rheiny a ddaeth i'r cyfarfodydd ac, mae'n debyg, yn fenywod dosbarth canol. Ychydig iawn o amser fyddai gan fenywod dosbarth gweithiol i drefnu mudiad.

In 1912 two representatives from the Women's Labour League toured the Rhondda speaking on women's suffrage. The majority of those who attended the meetings were from Liberal and Labour parties and likely middle class women. Working class women had little time to organise.





“ ROEDD LLAWER O FENYWOD YN WYNEBU CALEDI ARIANNOL DIFRIFOL AM FOD EU GWŶR WEDI MYND I'R RHYFEL, A BOD DIM ARIAN I'R TEULU. ROEDD GOFYN I WRAIG FOD 'O GYMERIAD DA' ER MWYN CAEL LWFANS GWAHANU. ASESWR FYDDAI'N PENDERFYNU AR EI CHYMERIAD, AR SAIL EI FARN ODDRYCHOL AM EI MOESOLDEB. ”

## CADW'R GLENDID

Y RHYFEL BYD CYNTAF (1914-1919) WORLD WAR I

## A WAR ON DIRT

“ WITH MEN AT WAR AND NO MONEY COMING IN TO THE FAMILY, MANY WOMEN WERE LEFT TO FACE GRAVE FINANCIAL HARDSHIP. STATE SEPARATION ALLOWANCES REQUIRED THAT THE WIFE BE OF 'GOOD CHARACTER'. ITS AWARD WAS SUBJECTIVE AND BASED ON THE MORAL JUDGEMENT OF THE ASSESSOR. ”

1918

1918

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 yn rhoi'r bleidlais i fenywod dros 30 oed.**

**Deddf y Senedd (Cymhwysio Merched) 1918 yn rhoi hawl i fenywod fod yn Aelodau Seneddol.**

1918

**Representation of the People Act, granted women over 30 the vote.**

**Parliament (Qualification of Women) Act 1918 admitted women into government.**

1919

**Deddf (Dileu) Anghymwysterau Rhyw (1919) yn rhoi hawl i fenywod ddod yn fargyfreithwyr, cyfreithwyr, rheithwyr, ac ynadon.**

1919

1919

**Sex Disqualification (Removal) Act, enabled women to become barristers, solicitors, jurors and magistrates.**

Bach iawn o newid ddaethai i'r menywod gartref. Rhaid iddynt ddefnyddio'r gegin fel ystafell ymolchi, golchdy, popty, ystafell fwyta, a meithrinfa. Byddai rhai gwragedd yn gorfod darparu ar gyfer cynifer â phedwar glöwr yn ymolchi mewn twba o flaen tân ar ddiwedd eu sifftiau. Wynebai menywod faich llethol cynhesu dŵr a llenwi twba o hyd.

Erbyn 1918, roedd Ffederasiwn Glowyr De Cymru yn galw am oriau byrrach a chyflogau uwch. Yn yr un flwyddyn, cafodd Adran Merched gyntaf y Blaidd Lafur yn y Rhondda ei ffurfio, yn Nhon-pentre, gydag Elizabeth Andrews fel Ysgrifennydd. Roedd 12 o fenywod yn bresennol, yn llunio deiseb i'r Ffederasiwn am iddi gynnwys baddonau pen pwll ymhlith nodau'i hymgyrch. Rhaid gweithredu er mwyn ysgafnhau baich gwraig y glöwr.

Sefydlwyd Comisiwn Sankey drwy Ddeddf Seneddol ym 1919 er mwyn trafod dyfodol y diwydiant glo. Ymhlith tystion Ffederasiwn y Glowyr roedd Elizabeth Andrews, yn dadlau fod angen darparu baddonau pen pwll a gwella tai. Siaradai Andrews ar ran holl fenywod Cymoedd y De.

Little had changed for women at home, the kitchen often served as bathroom, laundry, bakery, dining room and nursery. For some, as many as four miners would have to bath in a tub in front of the fire at the end of their shift. Heating the water and filling the tub was back breaking work endured by women.

By 1918 the South Wales Miners Federation was agitating for shorter hours and higher wages. In the same year the first Rhondda Women's Section of the Labour Party was formed in Ton Pentre with Elizabeth Andrews as Secretary. There were 12 women present, they petitioned the Federation to include the provision of pithead baths in their campaign. Something had to be done to lighten the burden of the miner's wife.

In 1919 the State set up the Sankey Commission to consider the permanent acquisition of the coal industry. Elizabeth Andrews, acting as representative of the Federation, gave evidence on the need for pit baths and improved housing. Andrews spoke for and on behalf of all women in the South Wales Valleys.

# CWFFIO NEU GILIO FORFEIT OR FIGHT

(Y 1920AU A'R 1930AU / 1920 & 1930s)

Arweiniodd streiciau, cloadau allan, ac anghydfodau diwydiannol eraill at gynydd mewn diweithdra ymhlith dynion. Canlyniad hyn oedd troi yn ôl at yr hen agweddau cyn y Rhyfel. Yn sgîl y Dirwasgiad, daeth hi'n annerbyniol i fenywod weithio mewn rolau gwrywaidd traddodiadol pan oedd dynion yn ddi-waith. Y genadwri i fenywod oedd iddynt fod yn fodlon ar eu byd a dychwelyd i'r aelwyd.

Câi llawer o fenywod eu calonogi gan y mudiadau newydd ar eu cyfer. Drwy gymryd rhan yn y mudiadau hyn, byddent yn peidio ag ildio i dderbyn dioddefaint y Dirwasgiad, ac yn chwarae rôl allweddol yng ngwaith gwella'u cymunedau. Byddent yn coginio bwyd mewn ceginau cymunedol, ac yn aflonyddu ac ymosod ar fradwyr a'r heddlu.

Parhâi'r menywod i sefyll ochr yn ochr â'r dynion, ac roedd eu presenoldeb mewn gorymdeithiau newyn drwy gydol y cyfnod yma yn nodedig. Roedd yr enwog Dora Cox (1904-2000) ymhlith arweinwyr yr orymdaith o Donypandy i Lundain ym mis Mawrth 1934, gyda beret coch llachar ar ei phen a sach ar ei chefn.

Industrial disputes, lockouts and strikes led to growing male unemployment and a step backwards to 'pre-war' attitudes. The depression made it unacceptable for women to work in 'traditionally' male roles while their men were unemployed. Women were told to be content and were expected to return to the home.

Women's organisations were a much needed diversion. Through participation, women were not passing victims of the depression they played a key role in bringing about improvements in communities. They worked as cooks in communal kitchens, harassed and attacked blacklegs and police.

Women continued to stand side by side with men; their attendance at hunger marches throughout this time is noted. One such lady, Dora Cox, marched from Tonypany to London in March 1934 proudly wearing a bright red beret and carrying a rucksack on her back.

Byddai'r Llysoedd yn aml iawn yn rhoi dedfrydau llym i fenywod er mwyn atal eraill rhag dilyn eu trywydd. Ar 3 Tachwedd 1926, cafodd Mrs. Elvira Bailey, Treorci, ddedfryd o ddau fis am daflu cerrig at blismon. "Rwyf o'r farn," meddai Ynad Cyflogedig y Rhondda, "fod menywod wedi cymryd rhan llawer rhy flaenllaw yn yr holl aflonyddwch yma."

Women were often given harsh sentences to deter further action: on the 3rd November 1926, Mrs Elvira Bailey of Treorchy was given a 2 months sentence for throwing stones at a policeman.

The Rhondda Stipendiary noted "I find women have been taking too prominent a part in these disturbances".

1925

Cyflwyno hawliau gwarcheidiaeth cyfartal i fenywod, a phensiynau i weddwon.

1928

Deddf Etholfraint Gyfartal 1928 yn rhoi hawliau cyfartal i fenywod a dynion. O ganlyniad i hyn, câi dynion a menywod fel ei gilydd bleidleisio yn 21 oed.

1931

Aelodaeth Urdd Gydweithredol y Menywod wedi cyrraedd 67,000, mewn 1,400 o ganghennau.

1935

Dros 110,000 o ddynion a menywod yn gorymdeithio o'r Cymoedd er mwyn protestio yn erbyn Deddf Yswiriant Diweithdra 1925.

1925

1925

Introduction of equal guardianship rights and widow's pensions.

1928

1928

Equal Franchise Act, granted equal voting rights to women and men. As a result, both men and women could vote at the age of 21.

1931

1931

Women's Co-operative Guild had 1,400 branches and over 67,000 members.

1935

1935

Unemployment Insurance Act prompted over 110,000 men and women to march in protest from the Valleys.







# I'R GAD WE CAN DO IT

## YR AIL RYFEL BYD (1939-1945) WORLD WAR II

1941

Gorfodi menywod i gofrestru ar gyfer gwaith rhyfel. Roedd y mesur yma yn cwmpasu pob menyw rhwng 19 a 40 oed.

1941

1941

Employment exchanges were created. Compulsory registration directed all women between 19 and 40 into work.

1944

Codi oed cofrestru gorfodol menywod i 50.

1944

1944

The compulsory registration age for women rose to 50.

All neb wadu'r holl ddiodefaint a chaledi a ddaeth i ran menywod a dynion fel ei gilydd yn sgîl y Rhyfel, ond bu rhai menywod yn fwy ffodus na'r gweddill. Cafodd rhai gyfle yn ystod y Rhyfel i ennill rhyw annibyniaeth tu hwnt i bob dychymyg o'r blaen. Cafodd mwy o fenywod eu gorfodi i swyddi nag erioed o'r blaen, ac nid fel athrawesau a nyrsys yn unig. Bu eraill yn beirianwyr, yn aelodau o'r Gwasanaeth Tiriogaethol Cynorthwyol, ac yn weithwyr mewn ffatrioedd arfau.

Yn ystod y Rhyfel, bu dros filiwn o bobl (menywod yn bennaf) wrthi yn gwneud arfau rhyfel. Bu tua 24,000 o fenywod yn gweithio yn y Ffatri Ordnans Frenhinol ym Mhen-y-bont. Roedd y cyflog yn gymharol dda, ond roedd y gwaith yn beryglus.

Doedd Gwen Obern, Aberdâr ddim wedi bod yn gweithio yno ers wythnos pan ffrwydrodd bocsaidd o danwyr ffrwydron. Collodd Gwen ei golwg a'i dwylo, ac fe laddwyd nifer o bobl eraill.

There is no doubt that war brought tremendous suffering and hardship to women and men alike but some women were luckier than others. Some found in war an opportunity for an independence not previously known. More women than ever before were compelled into work and not only as teachers and nurses but as engineers, members of the Auxiliary Territorial Service and munitions workers.

During the war, over a million people (mostly women) were employed in the manufacture of munitions. Around 24,000 women worked at the Royal Ordnance Factory in Bridgend, the pay was relatively good but work was dangerous.

Gwen Obern from Aberdare was in her first week of work at the factory when an exploding box of detonators blinded her and blew off both her hands; several others were killed.

# MENYWOD WRTH Y LLYW

(Y 1950au a'r 1960au / 1950s & 1960s)

## FEMININE MYSTIQUE

Yn ystod y cyfnod ar ôl y Rhyfel, dirywio yn raddol a wnâ'r diwydiannau traddodiadol lle roedd y dynion wedi gweithio. Cafodd ystadau diwydiannol eu datblygu er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mwy amrywiol, gan gynnwys ffatrioedd electronig a thecstilïau. Fe greodd hyn ragor o swyddi i fenywod.

The post-war period in Wales was one of gradual decline for the traditional, male-orientated industries. Trading estates were developed to encourage more diverse employment opportunities including, electronics and textiles factories. This created more jobs for women.



1957

1957

25% o holl weithwyr yn y Rhondda yn fenywod.

1957

1966

1968

1968

Gostwng oedran pleidleisio'r ddau ryw i 18.

1970

1957

25% of all insured employees in the Rhondda were women.

1954 1955 1956 1957 1958 1959 1960 1961 1962 1963 1964 1965

1968

The voting age for both genders was lowered to 18.

1969



Drwy gael cyflogaeth, roedd modd iddynt ennill rhyw annibyniaeth newydd, ymdeimlad o berthyn y tu allan i'r cartref ymhlith eu ffrindiau, a bywyd cymdeithasol hefyd. Yn gynnar yn y 1960au, menywod oedd 85% o weithlu'r diwydiannau tecstilïau.

Ar yr aelwyd hefyd fe fu newidiadau sylweddol i fenywod. Yn ystod y 1950au hwyr, darparwyd baddonau pen pwll ar raddfa eang yn y meysydd glo. Os oedd rhywun eisïau gosod dyfeisiau arbed gwaith modern yn y gegin, byddai modd eu hurbwrcasu.

Datganodd Mrs. Evans, Cadeirydd Cangen Blaenau Rhondda Ffederasiwn Nwyr Merched, fod offer cartref yn rhyddhau menywod "i gymryd eu lle haeddiannol mewn materion cyhoeddus".

Employment afforded a new independence, a sense of place and camaraderie, the chance of a social life outside of the home. In the early 1960s, 85% of the textile industries workforce was women.

There were also big changes within the home for women. The late 1950s saw widespread provision of pithead baths throughout the coalfields and hire purchase was available to anyone who wanted to fit out their kitchen with modern labour saving devices.

Mrs Evans, Chairman of the Upper Rhondda Branch of the Gas Federation pointed out that domestic appliances freed women "to take their rightful place in civic affairs".



# Y FENYW FEL CWDYN TE

(Y 1970au – HEDDIW / 1970s – PRESENT DAY)

## A WOMAN IS LIKE A TEABAG

Yn ôl Eleanor Roosevelt (1884-1962),  
“FEL CWDYN TE RYDYM NI'R MENYWOD - NI WYR PA MOR  
GRYF YDYM NI NES I NI FYND I DDŴR POETH”

Ac fe aeth menywod y Cymoedd i ddigon o ddŵr poeth yn ystod y 1970au a'r 1980au.

Daeth cymuned ar ôl cymuned yn agos at chwalu yn sgîl cau cymaint o byllau, a bu dynion a menywod yn sefyll yn y bwlch gyda'i gilydd er mwyn amddiffyn eu ffordd o fyw. Aeth menywod ati i greu rhwydweithiau arloesol o grwpiau cefnogi, gyda threfniadaeth lawer cryfach. Buont yn sefyll yn gadarn ochr yn ochr â'u dynion ar y llinellau piced.

Eleanor Roosevelt once said:

“A WOMAN IS LIKE A TEABAG - YOU NEVER KNOW HOW STRONG SHE IS UNTIL SHE GETS IN HOT WATER”

and the years of the 1970s and 80s brought a lot of hot water for the women of the Valleys.

Mass pit closures threatened to destroy communities and fiercely passionate men and women fought to preserve their way of life. New networks of women's support groups formed like never before, women were more organised and proudly stood side by side with their men on the picket lines.

1970

Mae Deddf Cyflog Cyfartal 1970 yn gwahardd unrhyw driniaeth lai ffafriol rhwng dynion a menywod o ran tâl a thelerau cyflogaeth.

1975

Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 yn gwarchod dynion a menywod rhag gwahaniaethu ar sail rhyw, neu statws priodasol.

1970

1970

Equal Pay Act, prohibits any less favourable treatment between men and women in terms of pay and conditions of employment.

1975

1975

Sex Discrimination Act, protected men and women from discrimination on the grounds of sex or marital status.








Roedd economi ddiwydiannol Cymru yn troi'n economi ôl-ddiwydiannol. Rhwng 1975 a 1983, diflannodd un o bob pump o swyddi dynion. Ond roedd cynnydd yn y sector gwasanaeth, ar y llaw arall, yn parhau i greu swyddi i fenywod.

Wales was transforming from an industrial to a post-industrial economy. During 1975 to 1983 one in five men's jobs disappeared. In contrast, a growing service sector continued to create jobs for women.



Yn arwain y don newydd o ffeministaeth roedd Mudiad Rhyddid Menywod, a ffurfiai grwpiau lleol ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys Pontypridd.

Ymladdai'r grwpiau hyn i dynnu sylw'r cyhoedd at broblemau parhaus gwahaniaethu ar raddfa eang, gan gynnwys y bwch cyflog rhwng y rhywiau, a chyfle cyfartal mewn addysg.

**“I MI,” MEDDAI HILARY ROWLANDS YM 1993, “DAETH TRO AR FYD YN YSTOD STREIC Y GLOWYR. DYNA PRYD Y DECHREUAIS I FEITHRIN HYDER GO IAWN, RWY’N MEDDWL. ROEDDWN I WEDI DIGIO’N LÂN. MI WYDDWN I FOD RHAID I MI WNEUD RHYWBETH, A DYNA SUT Y DECHREUODD YR HYDER DYFU.”**

A new wave of feminism emerged headed by the Women's Liberation Movement, local groups formed across Wales including Pontypridd.

These groups fought to bring to public attention the continued issues of widespread discrimination including the gender pay gap and equal opportunities in education.

Hilary Rowlands (1993) remembered:

**“THE MINER’S STRIKE WAS A TURNING POINT FOR ME. I THINK THAT IS WHEN I REALLY STARTED TO GAIN CONFIDENCE. I WAS SO ANGRY. I KNEW I HAD TO DO SOMETHING AND THE CONFIDENCE JUST GREW FROM THERE.”**

# DYFAL DONC Y DAW'R DYDD A WOMAN'S WORK IS NEVER DONE

Rydym ni'r menywod yn dal i ysgrifennu ein hanes. Rydym ni'n dal i ddarganfod enwau'r menywod yn ein Cwm a wnaeth safiad yn erbyn cyfyngiadau ar sail rhyw yn y gymdeithas a mynnu cael newid.

Cryn siom i ni yw methu sôn am bob menyw o fri, y rheiny a enillodd le i fenywod ym mhob cylch o'r gymdeithas, yr economi, a gwleidyddiaeth. Bellach, mae menywod yn gwneud gwaith Prif Weinidog, Cynghorydd, Maer, Arweinydd Plaid Wleidyddol, Prif Weithredwr, Gwyddonydd, Enillydd Gwobr Nobel, a llawer mwy.

Mae disgwyliad oes dynion a menywod yn uwch nag erioed o'r blaen, mae mwy o fenywod yn mynd i mewn i addysg uwch, a syrthio mae diweithdra. All neb amau nad yw menywod yn nes nag erioed at fod yn gyfartal â dynion - ond ddaethom ni ddim i ben y daith eto.

Ym mhob rhan o Ynys Prydain, cyfartaledd cymedr y bwllch cyflog i weithwyr amser llawn yw 14.1%. Yn ôl grŵp ymgyrchu Cymdeithas Fawcett, yw bydd y bwllch yn dal i gau'r un mor araf â'r pum mlynedd ddiwethaf, bydd yn camryd canrif i gyrraedd 0%.

Women's history is still being written, we are still discovering the names of those women in our Valley who stood up against gender constraints within society and demanded change.

It is with immense regret we cannot make mention of every woman as it is because of them that today, women occupy all spheres of the social, economic and political environments. Women are Prime Ministers, Councillors, Mayors, Political Parties Leaders, CEOs, Activists, Scientists, Nobel Peace Prize Winners and much more.

Life expectancy for men and women is higher than ever before, more women are entering higher education and unemployment is falling. Undoubtedly women are more equal with men than ever before but there is still a way to go.

Across Britain the mean average pay gap for full time workers is 14.1%, the campaign group the Fawcett Society notes that if the rate continues to close as it has, over the last five years, it will take 100 years to reach 0%.

1994

Tŷr Arglwyddi yn dyfarnu, ar ôl 15 mlynedd o ymgyrchu o ddifrif gan fudiadau menywod, na châl gwŷr dreisio'u gwragedd ragor.

1994

1994

Rape in marriage is made a crime after 15 years of serious campaigning by women's organisations.

2003

Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wladolion y Deyrnas Unedig gyflawni anffurfiad organau cenhedlu benywod y tu allan i ffiniau'r Deyrnas Gyfun, ac yn codi uchafswm y gosb o 5 mlynedd i 14 mlynedd.

2003

2003

The Female Genital Mutilation Act made it illegal for UK nationals to perform female genital mutilation outside the borders of the UK, and increased the maximum penalty from 5 to 14 years.

2117

2117

Y flwyddyn yr amcangyfrifir y bydd y bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn cau.

2117

The estimated year that the gender pay gap will close.



“YN DAWEL CHAIFF MENYW DDIM NEWID BYD”  
“WELL BEHAVED WOMEN SELDOM MAKE HISTORY”



# A WELSOCH EIN CHWAER- ARDDANGOSFEYDD YN AMGUEDDFA AC ORIEL CWM CYNON AC AMGUEDDFA PONTYPRIDD?

Awn ati gyda'n gilydd i adrodd hanes pob menyw, waeth beth fo'i hoed, ethnigrwydd, neu ddosbarth.


Pwysleisiwn ddigwyddiadau allweddol lle bu menywod ar flaen y gad yn y frwydr dros newid.

Byddai Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn hoffi diolch i Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, David Maddox OBE, a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru am eu caniatâd caredig i ddefnyddio lluniau o'u casgliadau a'r Archif Gydweithredol Genedlaethol.

# HAVE YOU SEEN OUR SISTER EXHIBITIONS IN THE CYNON VALLEY MUSEUM AND PONTYPRIDD MUSEUM?

Together, we strive to tell the story of all women, regardless of age, ethnicity or class and highlight key events where women have been on the front line of change.

For the kind permission to use images from their collections, the RCTCBC Heritage Service would like to thank RCTCBC Library Service, David Maddox OBE, Women's Equality Network Wales and the National Co-operative Archive.



TAITH PYLLAU  
GLO CYMRU  
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA

WELSH MINING  
EXPERIENCE  
RHONDDA HERITAGE PARK



AMGUEDDFA CWM CYNON  
CYNON VALLEY MUSEUM



Amgueddfa  
Pontypridd  
Museum



RHONDDA CYNON TAF